❖ Enw

Yn y Roeg wreiddiol mae cyfenw Iesu, sef Y Crist, yn ymddangos fel *Xristos* – ac yn cael ei ynganu fel Christos. Tua 1500 fe ymddangosodd ffurf sy'n dalfyriad ar *Christmas*, sef *Xmas*. Gyda dyfodiad prynu a gwerthu a masnachu, aeth pob llythyren i gostio – fel y gŵyr unrhyw un sy'n rhoi hysbyseb mewn papur newyddion – felly yn lle gwastraffu arian ar ysgrifennu'r gair cyfan allan, cafwyd y fersiwn ratach – *Xmas*. Rhad neu beidio, mae wedi ei seilio'n ddigon cadarn ar y testun Groeg am enw a swydd y cyfryngwr dwyfol a ddaeth yn gnawd ym Methlem gynt.